23. Arolygu

Yn y bennod hon rhoddir sylw i:

- Amcanion y broses arolygu ysgolion.
- Yr amgylchiadau ar gyfer cynnal arolygiadau; a'r
- Gweithdrefnau y disgwylir i'r pennaeth a'r corff llywodraethu eu dilyn cyn ac ar ôl arolygiad.

Cefndir

1. Bwriad arolygiad yw helpu ysgolion i wella drwy dynnu sylw at eu cryfderau a'u gwendidau, gan argymell ffyrdd o wella a hyrwyddo diwylliant o hunanwerthuso manwl. Mae cyhoeddi adroddiadau arolygu hefyd yn rhoi gwybodaeth i rieni a'r gymuned ehangach am ansawdd addysg ac a yw disgyblion yn cyflawni cymaint ag y gallant.

2. Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gweithredu'n annibynnol ond caiff ei ariannu gan Weinidogion Cymru o dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

3. Deddf Addysg 2005 a rheoliadau cysylltiedig sy'n llywodraethu arolygiadau ysgolion. Rhaid i dimau o arolygwyr gynnal arolygiadau a arweinir gan arolygydd cofrestredig neu AEM, a rhaid cynhyrchu arolygiad ysgrifenedig ar gyfer pob un ohonynt. Yn ôl Adran 28 o Ddeddf Addysg 2005, rhaid i arolygwyr cofrestredig adrodd ar y canlynol:

- Y safonau addysgol a gyflawnir gan yr ysgol.
- Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol.
- I ba raddau mae'r addysg yn diwallu anghenion disgyblion amrywiol yr ysgol.
- Ansawdd arweiniad a rheolaeth yr ysgol, gan gynnwys pa mor effeithiol y caiff adnoddau ariannol eu rheoli.
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yr ysgol; a
- Chyfraniad yr ysgol at les y disgyblion.

VA VC F

4. Bydd gan rai ysgolion gymeriad crefyddol a byddant yn dysgu addysg grefyddol enwadol. Mewn ysgolion o'r fath, cynhelir arolygiad ar wahân ar gyfer addysg grefyddol a chynnwys addoli ar y cyd o dan adran 50 o Ddeddf Addysg 2005 ac ni chaiff y rhain eu cynnwys yn arolygiadau adran 28.

5. Cynhelir arolygiadau ar gyfer y categorïau canlynol o ysgolion o dan adran 28 o Ddeddf Addysg 2005:

- Ysgolion cymunedol.
- Ysgolion sefydledig.
- Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.
- Ysgolion gwirfoddol a reolir.
- Ysgolion meithrin a gynhelir.
- Ysgolion arbennig sefydledig.
- Ysgolion arbennig cymunedol; ac
- Unedau cyfeirio disgyblion.

6. Yn y sector ôl-16, yn ôl Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, rhaid i Brif Arolygydd Cymru adrodd ar:

- Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir.
- Y safonau a gyflawnir gan y rhai sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant; a
- Pha mor effeithiol y caiff yr adnoddau ariannol eu rheoli ar gyfer y rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant ac a ydynt yn darparu gwerth am arian.

Y Gyfundrefn Arolygu Ysgolion

7. Dechreuodd y gyfundrefn bresennol o arolygu allanol cyson ym 1993. Roedd pob ysgol uwchradd wedi'u harolygu erbyn mis Awst 1998 a phob ysgol gynradd ac arbennig erbyn mis Awst 1999.

8. Dechreuodd y cylch arolygu diweddaraf o ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd ym mis Medi 2004 a daw i ben ym mis Gorffennaf 2010. Yn unol â Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006, rhaid arolygu ysgolion bob chwe blynedd.

9. Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yw pennaeth Estyn. Estyn sy'n trefnu ac yn talu am arolygiadau, a gynhelir fel arfer gan dimau a gyflogir gan gontractwyr allanol o dan arweiniad Arolygydd Cofrestredig.

10. Mae holl aelodau'r tîm arolygu wedi cwblhau trefniadau hyfforddi a dethol Estyn yn llwyddiannus. Gall arolygwyr tîm ymgeisio i ddod yn Arolygwyr Cofrestredig os ydynt yn bodloni'r meini prawf dethol. Mewn achosion o'r fath, rhaid iddynt ymgymryd â hyfforddiant ac asesu pellach yn llwyddiannus er mwyn dod yn Arolygydd Cofrestredig. Mae pob arolygydd yn derbyn hyfforddiant rheolaidd fel eu bod yn ymwybodol o'r materion arolygu diweddaraf.

11. Mae Estyn yn monitro sampl o'r holl arolygiadau ac adroddiadau arolygu ac yn darparu adborth i'r arolygwyr ynglŷn ag ansawdd eu gwaith. Os na fydd arolygwyr yn bodloni safon ansawdd Estyn mae'n bosibl y bydd gofyn iddynt gyflawni hyfforddiant pellach ac mewn achosion eithafol gallant gael eu tynnu oddi ar y gofrestr.

Cwmpas yr Arolygiadau

12. Bydd y broses o arolygu'r rhan fwyaf o ysgolion yn symlach na'r cylchoedd arolygu blaenorol. Caiff ysgolion eu harolygu yn unol ag asesiad risg sy'n seiliedig ar feini prawf clir a chyhoeddus, sy'n canolbwyntio ar y meini prawf canlynol:

- Graddau arolygu o'r adroddiad arolygu diwethaf; a
- Pherfformiad meincnod o dan ddangosydd allweddol dros gyfnod o dair blynedd.

13. Mae Estyn yn cynnal asesiad risg ac yn rhoi gwybod i'r ysgolion a'r timau arolygu am y math o arolygiad i'w gynnal, fel a ganlyn:

Arolygiad llawn: arolygu pob rhan o'r Fframwaith Arolygu a phob pwnc a/neu faes dysgu ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Arolygiad safonol: arolygu pob rhan o'r Fframwaith Arolygu a chwe phwnc a/neu faes dysgu ar gyfer pob cyfnod allweddol. Bydd angen llai o ddiwrnodau arolygu er mwyn cynnal arolygiad safonol. Bydd hunanwerthusiad yr ysgol o gymorth wrth bennu i ba raddau yr arolygir rhai agweddau ar saith cwestiwn allweddol y Fframwaith Arolygu Cyffredin. Bydd yn cynnwys arolygiad manwl o lai o bynciau a/neu faes dysgu. Wrth adrodd ar safonau cyrhaeddiad rhaid i'r adroddiad ddatgan yn glir bod y graddau'n cyfeirio at y pynciau penodol a arolygir yn unig.

Arolygiad byr: arolygu rhannau o'r Fframwaith Arolygu. Bydd angen llai fyth o ddiwrnodau arolygu er mwyn cynnal arolygiad byr ac arolygiad llai manwl o rai o'r saith cwestiwn allweddol. Bydd hunanwerthusiad yr ysgol hefyd o gymorth wrth bennu i ba raddau yr arolygir rhai agweddau ar y saith cwestiwn allweddol. Ni chynhelir gwerthusiad penodol ac ni adroddir ar bynciau a/neu feysydd dysgu unigol.

14. Pan fo'r amgylchiadau'n ei gyfiawnhau, ceidw PAEM yr hawl i bennu'r math o arolygiad, hyd yn oed os yw'n groes i'r hyn a fyddai wedi digwydd fel arfer o ganlyniad i'r cais o dan y meini prawf penodol.

15. Yn ystod y cylch presennol cynhelir arolygiad llawn o bob ysgol feithrin, ysgol arbennig, ysgol newydd a phob sefydliad sy'n destun mesurau arbennig neu welliannau arwyddocaol, waeth beth yw canlyniad yr asesiad risg.

Y Tîm Arolygu

16. Bydd cyfansoddiad y tîm arolygu'n dibynnu ar fath, ystod oed, natur ieithyddol a nifer y disgyblion ar y gofrestr yn ogystal â'r math o arolygiad a nodwyd ar gyfer yr ysgol.

17. Yr Arolygydd Cofrestredig sy'n arwain a rheoli'r tîm arolygu a'r holl broses arolygu.

18. Bydd nifer o **arolygwyr annibynnol** hefyd yn rhan o'r tîm, gan gynnwys **arolygydd lleyg** nad yw wedi bod ynghlwm wrth ddarparu na rheoli addysg ysgol, heblaw yn wirfoddol – fel llywodraethwr, er enghraifft.

19. Fel arfer, bydd **asesydd cymheiriaid** (AC) yn gweithredu fel aelod llawn o'r tîm. Yr AC sy'n cyflwyno safbwynt yr ymarferydd cyfredol yn yr arolygiad. Caiff pob AC ei enwebu gan yr ysgol lle mae'n gweithio ac fe'i hyfforddir gan Estyn. Disgwylir cyfranogiad llawn yr AC yn yr arolygiad a'r dyfarniadau corfforaethol.

20. Bydd ysgolion yn cyfrannu'n ymarferol at y broses arolygu, a gwahoddir aelod uwch o'r staff, a elwir yn **enwebai**, i weithio gyda'r tîm arolygu. Cytunir ar union swyddogaeth yr enwebai gyda'r Arolygydd Cofrestredig cyn pob arolygiad a chadarnheir hon mewn datganiad o gytundeb. Gall yr enwebai gyfrannu at weithgareddau arolygu amrywiol, gan gynnwys arsylwi ar wersi a mynychu cyfarfodydd, ond ni all fod yn rhan o'r broses o raddio.

21. Er mwyn gweithredu fel enwebai mewn arolygiad, **rhaid** bod yr aelod staff wedi bod ar gwrs hyfforddi undydd Estyn cyn yr arolygiad, heblaw o dan amgylchiadau eithriadol. Pe bai ysgol yn penderfynu peidio â defnyddio enwebai, ni fydd yn tanseilio'r arolygiad. Nid yw'r ffaith nad oes enwebai gan yr ysgol yn effeithio ar ddyfarniadau'r tîm arolygu.

Hunanwerthuso

22. Mae pob arolygiad yn cychwyn gyda hunanwerthusiad. Nod yr arolygiad a'r hunanwerthusiad yw darparu asesiad cywir o ansawdd a safonau, a nodi'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn eu gwella.

23. Gellir cyflwyno dogfennau hunanwerthuso i'r arolygwyr ar sawl ffurf. Ar wefan Estyn ceir templed dewisol y gellid ei ddefnyddio ar gyfer adroddiad hunanwerthuso sy'n seiliedig ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

24. Mae arolygwyr yn defnyddio'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r cyfarwyddyd i brofi a dilysu pa mor ddibynadwy yw'r dyfarniadau a wnaed yn hunanwerthusiad yr ysgol ochr yn ochr â gwerthusiad y tîm arolygu. Dylai dyfarniadau'r arolygwyr ar arwain a rheoli ystyried ansawdd a chywirdeb hunanasesiad yr ysgol a'i ganlyniadau.

Cyn yr Arolygiad

25. Oddeutu un tymor cyn yr arolygiad, bydd Estyn yn dyfarnu'r contract ac yn hysbysu'r ysgol y bydd yn cael ei harolygu. Bydd yr Arolygydd Cofrestredig yn cysylltu â'r ysgol a chytuno ar union ddyddiadau'r arolygiad gyda'r corff llywodraethu.

26. Mae'r corff llywodraethu, yn achos ysgol â chyllideb ddirprwyedig, neu'r ALl, yn achos ysgol heb gyllideb ddirprwyedig, yn gyfrifol am:

- Hhysbysu rhieni/gofalwyr ynglŷn â'r arolygiad.

- Hysbysu'r ALl (mewn ysgol â chyllideb ddirprwyedig) bod yr ysgol yn mynd i gael ei harolygu.
- Hysbysu'r unigolyn neu'r corff sy'n gyfrifol am benodi'r llywodraethwyr sefydledig mewn ysgolion gwirfoddol, a'r awdurdod esgobaethol mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (os yn wahanol).

VA
VC
F

- Gwahodd sylwadau gan y gymuned leol a phartneriaid, megis cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes leol mewn ysgolion uwchradd; a
- Hhysbysu'r person perthnasol o fewn yr ALl, os yw plant "sy'n derbyn gofal" yr awdurdod lleol ar gofrestr yr ysgol.

27. Bydd Estyn yn anfon Ffurflen Gwybodaeth i Ysgolion i'r ysgol, sy'n gofyn am wybodaeth amrywiol, fel manylion staffio a threfniadau'r cwricwlwm. Rhaid dychwelyd y ffurflen at y contractwr a rhoi copi i Estyn.

28. Rhaid i'r corff llywodraethu drefnu cyfarfod rhwng yr Arolygydd Cofrestredig a'r rhieni/gofalwyr sydd â phlant yn yr ysgol. Rhaid gwahodd yr holl rieni/gofalwyr (gan gynnwys yr ALl os oes plant 'sy'n derbyn gofal' ar gofrestr yr ysgol) i'r cyfarfod, gan gynnwys y rhai sy'n aelodau staff neu fwrdd llywodraethu'r ysgol. Ni all llywodraethwyr ac aelodau eraill o staff fynychu. Yr Arolygydd Cofrestredig fydd yn cynnal y cyfarfod. Dylai'r dyddiad a'r amser a ddewisir ar gyfer y cyfarfod fod mor gyfleus i gymaint o'r rhieni/gofalwyr â phosibl.

29. Rhaid i'r corff llywodraethu ysgrifennu at y rhieni o leiaf dair wythnos cyn y cyfarfod. Gall y nodyn gynnwys datganiad gan yr Arolygydd Cofrestredig sy'n egluro diben y cyfarfod. Gall y llywodraethwyr hefyd ddewis dosbarthu copïau o daflen Estyn 'Arolygu Ysgolion – Arweiniad i Rieni'. Gall y corff llywodraethu hysbysu rhieni am yr arolygiad ynghyd â'u hysbysu am y cyfarfod. Gellir defnyddio 'post disgyblion' i ddosbarthu'r llythyron.

Cyfarfod yr Arolygydd Cofrestredig gyda'r Corff Llywodraethu

30. Bydd yr Arolygydd Cofrestredig ac aelod o'r tîm arolygu yn trefnu i gyfarfod gyda'r corff llywodraethu er mwyn canfod gwybodaeth am waith y llywodraethwyr. Gweler agenda'r cyfarfod ar wefan Estyn.

31. Drwy law'r pennaeth, dylai'r llywodraethwyr hysbysu'r Arolygydd Cofrestredig am unrhyw faterion iechyd a diogelwch y bydd angen i'r arolygwyr fod yn ymwybodol ohonynt cyn yr arolygiad. Bydd y wybodaeth hon yn sylfaen i asesiad risg yr Arolygydd Cofrestredig.

Dogfennaeth

32. Bydd yr Arolygydd Cofrestredig yn gofyn i'r corff llywodraethu ddarparu dogfennau er mwyn ei helpu i gynllunio a pharatoi at yr arolygiad. Rhestrir y dogfennau hyn yn y Llawlyfr Arweiniad ar gyfer Arolygu Ysgolion. Gall Arolygwyr Cofrestredig dderbyn unrhyw dystiolaeth ychwanegol y mae ysgolion am ei darparu ond ni all ofyn am ragor o ddogfennau cyn yr arolygiad. Mae'r dull hwn yn lleihau'r baich biwrocrataidd ar ysgolion.

Yn ystod Arolygiad

33. Bydd y math o arolygiad yn pennu faint o amser y bydd yr arolygwyr yn ei dreulio yn yr ysgol. Fel rheol, gall hyn fod yn ddau ddiwrnod ar gyfer arolygiad byr mewn ysgol gynradd, tri diwrnod ar gyfer arolygiad llawn mewn ysgol arbennig neu hyd at bum niwrnod ar gyfer arolygiad llawn mewn ysgol uwchradd. Serch hynny, rhaid cynnal arolygiad adran 28 cyn pen 2 wythnos o ddyddiad dechrau'r arolygiad. Gall Arolygwyr EM (AEM) ymweld â'r ysgol yn ystod arolygiad er mwyn monitro perfformiad yr Arolygydd Cofrestredig a/neu aelodau'r tîm arolygu.

34. Arsylwi ar ddysgu ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth yw craidd y broses arolygu. Ar ôl arsylwi ar wersi, bydd yr arolygwyr yn rhoi adborth i'r staff ynghylch cryfderau a gwendidau'r addysgu. Bydd arolygwyr hefyd yn arsylwi ar weithgareddau amrywiol eraill, fel cofrestru, gwasanaethau a darpariaeth allgyrsiol. Byddant yn trefnu i drafod gyda grwpiau o ddisgyblion er mwyn canfod eu barn ar yr ysgol. Byddant yn cyfarfod gyda'r staff hefyd er mwyn trafod eu gwaith a chyda llywodraethwyr. Byddant yn archwilio amrywiaeth eang o ddogfennau'r ysgol.

35. Dylai llywodraethwyr weithio'n ddiwyd a chefnogi'r staff a'r llywodraethwyr. O dan Adran 164 (5) o Ddeddf Addysg 2002, mae hawl ffurfiol gan Arolygwyr Cofrestredig a'u timau i fynd i unrhyw ran o adeilad a safle'r ysgol a chymryd copïau o ddogfennau: mae rhwystro Arolygydd Cofrestredig neu aelod o'i dîm/thîm yn fwriadol yn drosedd o dan y Ddeddf hon.

36. Os nad yw'r enwebai'n bennaeth, bydd yr Arolygydd Cofrestredig yn cynnig cyfle i'r pennaeth glywed a thrafod y canfyddiadau sy'n dod i'r fei bob dydd.

37. Ar ddiwedd yr arolygiad, rhaid i'r Arolygydd Cofrestredig roi adborth i'r pennaeth a'r staff ynglŷn â nodweddion da a diffygion yr ysgol o safbwynt safonau a darpariaeth a'r ffactorau sy'n cyfrannu at y nodweddion da a'r diffygion hynny.

Arolygu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y cyd mewn Ysgolion Gwirfoddol neu Sefydledig

VA
VC
F

38. Yn ôl adran 50 o Ddeddf Addysg 2005, os oes cymeriad crefyddol gan ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig yng Nghymru, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau yr arolygir cynnwys trefniadau addoli ar y cyd yr ysgol ac unrhyw addysg grefyddol enwadol a ddarperir (sef arolygiad adran 50) ar gylch o chwe blynedd. Ni chaiff yr agweddau hyn ar ddarpariaeth yr ysgol eu cynnwys yn yr arolygiad adran 28 a drefnir gan Estyn. Gall y corff llywodraethu drefnu bod arolygiad adran 50 hefyd yn rhoi sylw i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yr ysgol.

39. Argymhellir bod cyrff llywodraethu'n trefnu i arolygiad adran 50 ac arolygiad adran 28 ddigwydd law yn llaw, neu mor agos at ei gilydd ag y bo'n ymarferol. Fel arfer ni ddylid cynnal arolygiad adran 50 yn hwyrach na diwedd y tymor y cynhaliwyd yr arolygiad adran 28. Mae Estyn yn gwneud trefniadau anffurfiol gyda nifer o grwpiau ffydd er mwyn hwyluso hyn.

40. Rhaid i arolygiad o dan adran 50 gael ei gynnal gan unigolyn a ddewisir gan y corff llywodraethu (neu yn achos ysgol wirfoddol a reolir, y llywodraethwyr sefydledig) ar ôl ymgynghori â'r unigolyn a benodwyd mewn perthynas â chrefydd neu enwad crefyddol yr ysgol.

41. Rhaid paratoi adroddiad arolygu cyn pen 35 diwrnod gwaith ar ôl diwedd yr arolygiad. Rhaid i'r corff llywodraethu gyhoeddi hwn yn yr un modd ag ar gyfer arolygiadau adran 28, sy'n cynnwys anfon copi o'r adroddiad at rieni pob disgybl ar gofrestr yr ysgol. Dylid anfon copi i Estyn er gwybodaeth hefyd.

42. Y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am y trefniadau cytundebol, gan gynnwys ffioedd. Mae grant ar gael gan Weinidogion Cymru tuag at gost arolygiad adran 50.

43. Fel rheol ni fydd y grant ar gael os cynhelir arolygiad adran 50 yn ystod blwyddyn academaidd wahanol i'r un y cynhaliwyd arolygiad adran 28. O dan amgylchiadau eithriadol pan na fu modd cynnal yr arolygiadau law yn llaw, dylai'r corff llywodraethu amlinellu'r rhesymau am hyn wrth gyflwyno cais am y grant.

44. Telir y grant mewn ôl-daliadau, ar ôl cyflwyno ffurflen gais wedi'i llenwi (gyda ffurflen PL8), prawf o wariant ar ffurf derbynneb sydd wedi'i llofnodi oddi wrth yr arolygydd a chopi o'r arolygiad enwadol i:

Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion 5
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ar ôl yr Arolygiad

Cyfarfod yr Arolygydd Cofrestredig gyda'r Corff Llywodraethu

45. Ar ôl yr arolygiad, bydd yr Arolygydd Cofrestredig yn cyfarfod â'r llywodraethwyr i gyflwyno a thrafod prif ganfyddiadau ac argymhellion yr arolygiad. Fel arfer, dylai llywodraethwyr wahodd cynrychiolydd o'r ALl i ddod i'r cyfarfod.

46. Bydd yr Arolygydd Cofrestredig yn gwahodd yr ysgol i gyflwyno ymateb ysgrifenedig i ganfyddiadau'r arolygiad er mwyn ei gynnwys yn yr adroddiad ysgrifenedig. Anfonir yr ymateb at yr Arolygydd Cofrestredig ac fe'i cyhoeddir gyda'i gytundeb ef/ei chytundeb hi. Ceir cyfarwyddyd ar ysgrifennu ymateb yr ysgol i ganfyddiadau'r adroddiad yn Atodiad 5 o'r Llawlyfr Arweiniad ar gyfer Arolygu Ysgolion.

Yr Adroddiad Arolygu

47. Rhaid i'r Arolygydd Cofrestredig gynhyrchu'r adroddiad a'r crynodeb cyn pen 35 diwrnod gwaith o ddiwedd yr arolygiad.

48. Bydd y contractwr yn gofyn i'r ysgol a ddylai'r adroddiad fod yn ddwyieithog a sawl copi o'r adroddiad cryno fydd eu hangen ar gyfer y rheini. Cynhyrchir adroddiadau yn y Saesneg neu'n ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyn iddo gael ei gyhoeddi, anfonir copi drafft hwyr i'r ysgol a bydd cyfle i wneud sylwadau ar faterion o anghywirdeb ffeithiol.

49. Bydd yr adroddiad yn gwneud argymhellion clir ar gyfer gwella, lle bo angen, ac yn rhoi syniad clir a phenodol i ddarparwyr ynglŷn â'r diffygion y bydd angen mynd i'r afael â nhw yn eu cynlluniau gweithredu dilynol. Dylai'r arolygwyr ysgrifennu'r argymhellion mewn Cymraeg neu Saesneg clir ac yn nhrefn blaenoriaeth.

50. Bydd prif ganfyddiadau'r adroddiad yn adlewyrchu barn y tîm arolygu ar:

- Y safonau addysgol a gyflawnir gan yr ysgol.
- Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol.
- I ba raddau mae'r addysg yn diwallu anghenion disgyblion amrywiol yr ysgol.
- Ansawdd arweiniad a rheolaeth yr ysgol, gan gynnwys pa mor effeithiol y caiff adnoddau ariannol eu rheoli.
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yr ysgol; a
- Chyfraniad yr ysgol at les y disgyblion.

51. Pan fydd yn cael yr adroddiad a'r crynodeb, rhaid i'r corff llywodraethu:

- Drefnu i anfon copi o'r crynodeb at rieni pob disgybl cyn pen deg diwrnod gwaith.
- Trefnu bod yr adroddiad llawn a'r crynodeb ar gael i'w harchwilio ym mha le ac ar ba adeg sy'n bosibl gan unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd am eu gweld; a
- Rhoi copïau o'r adroddiad llawn a'r crynodeb i unrhyw un sy'n gofyn amdanynt, o dan y trefniadau ar gyfer codi tâl a nodir isod.

52. Dyma'r trefniadau o ran codi tâl:

- Rhaid darparu copïau unigol o'r crynodeb yn rhad ac am ddim.
- Gellir codi tâl am gopïau o'r adroddiad llawn, ac am ddarparu nifer o gopïau o'r crynodeb, ar yr amod nad yw'r tâl a godir yn fwy na chost copïo.
- Gellir hefyd godi tâl ar rywun sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad neu'r crynodeb (nad oes hawl ganddynt eisoes i dderbyn copi) sy'n byw neu'n gweithio mwy na 3 milltir i ffwrdd o'r ysgol. Unwaith eto, ni ellir codi tâl sy'n fwy na chost copïo.

53. Gall cyrff llywodraethu ystyried rhoi copi o'r adroddiad mewn llyfrgelloedd lleol ac anfon yr adroddiad neu'r crynodeb i bapurau newydd a gorsafoedd radio lleol. Mewn ysgolion uwchradd, gall y corff llywodraethu anfon adroddiad at y cynrychiolwyr busnes lleol y rhoddwyd gwybod iddynt am yr arolygiad.

54. Cynhyrchir adroddiadau yn y Saesneg neu'n ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mater i'r corff llywodraethu yw ystyried cyfieithu'r adroddiad neu'r crynodeb (neu'r ddau) i ieithoedd eraill.

Y Cynllun Gweithredu

55. Rhaid i'r corff llywodraethu lunio cynllun gweithredu cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad ar yr arolygiad. Nid yw 'diwrnodau gwaith' yn cynnwys penwythnosau na gwyliau banc na gwyliau sy'n hwy nag un wythnos ond maent yn cynnwys toriadau hanner tymor o wythnos neu lai. Rhaid i'r cynllun gweithredu nodi'n fanwl y camau sydd i'w cymryd ar gyfer pob argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad, a dyddiad ar gyfer eu cwblhau.

56. Dylai'r canfyddiadau a'r argymhellion o'r arolygiad gyfrannu tuag at gynllun i ddatblygu'r ysgol sy'n diffinio materion clir i weithio arnynt, yn tynnu sylw at dargedau i'w cyflawni, ac yn diffinio blaenoriaethau ar gyfer datblygiad disgyblion a staff. Dylid cysylltu'r cynllun gweithredu â chynllun datblygu neu wella'r ysgol neu ei ymgorffori o fewn y cynllun hwnnw. Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau y cymerir y camau a gynllunnir. Yr ALl sy'n paratoi cynllun gweithredu ysgolion heb gyllideb ddirprwyedig.

57. Rhaid i'r corff llywodraethu, yn achos ysgol â chyllideb ddirprwyedig, neu'r ALl, yn achos ysgol heb gyllideb ddirprwyedig, anfon copi o'r cynllun gweithredu:

- I'r ALl neu'r corff llywodraethu fel y bo'n briodol gan ddibynnu a oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig.
- At bawb a gyflogir gan yr ysgol ac sydd wedi gofyn am gopi.
- Gweinidogion Cymru yn achos ysgolion uwchradd.
- Yr unigolyn neu'r bobl sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig mewn ysgolion gwirfoddol, a'r awdurdod esgobaethol yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir (os yn wahanol); a
- Rhieni disgyblion yr ysgol (y gall y corff llywodraethu benderfynu anfon crynodeb atynt).

58. Rhaid dosbarthu copïau o'r cynllun gweithredu cyn pen 5 diwrnod gwaith o ddyddiad cwblhau'r gwaith o baratoi'r cynllun gweithredu gan y corff llywodraethu neu'r ALl, fel y bo'n briodol. Os oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol neu os oes angen iddi wella'n sylweddol, y cyfnod yw 2 ddiwrnod gwaith o ddyddiad cwblhau'r gwaith o baratoi'r cynllun gweithredu gan y corff llywodraethu neu'r ALl, fel y bo'n briodol.

59. Rhaid trefnu bod copïau o'r cynllun gweithredu ar gael i aelodau o'r cyhoedd. Rhaid rhoi un copi am ddim i unrhyw un sy'n gofyn amdano os ydynt yn byw o fewn

3 milltir i'r ysgol. Gellir codi tâl ar bobl eraill am gopïau (fel yn achos yr adroddiad arolygu).

60. Yn ei adroddiad blynyddol i'r rhieni, rhaid i'r corff llywodraethu adrodd ar gynnydd o ran rhoi'r cynllun ar waith.

Ysgolion sy'n Peri Pryder

61. Ar gyfer pob arolygiad, rhaid i Arolygwyr Cofrestredig ystyried a oes angen mesurau arbennig ar yr ysgol neu a oes angen iddi wella'n sylweddol.

62. Os yw tîm arolygu'n crybwyll bod angen mesurau arbennig ar yr ysgol, bydd PAEM yn trefnu ymweliad ategol gan AEM. Ar ôl i AEM ymweld â'r ysgol ac adrodd ar yr ymweliad hwnnw, bydd PAEM yn penderfynu a yw'n cytuno â'r farn honno.

63. Os yw tîm arolygu'n nodi bod angen i'r ysgol wella'n sylweddol, bydd PAEM, neu AEM yn gweithredu ar ei ran, yn craffu ar yr adroddiad er mwyn gweld a yw'n cytuno â'r dyfarniad hwnnw. Fel arfer, ni fydd AEM yn ymweld â'r ysgol er mwyn ategu dyfarniad yr Arolygydd Cofrestredig ond mae'n bosibl y bydd angen gwybodaeth bellach arno/arni. Bydd PAEM yn penderfynu a yw'n cytuno â'r farn honno.

64. Yn achos ysgolion y mae arnynt angen fesurau arbennig neu bod angen iddynt wella'n sylweddol, rhaid i'r corff llywodraethu baratoi a chyhoeddi cynllun gweithredu cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr arolygiad neu'n gynt os yw Llywodraeth y Cynulliad o'r farn fod angen cwblhau'r gwaith gyda mwy o frys.

65. Dylid llunio'r cynllun gweithredu gyda'r nod o wella'r ysgol fel nad oes angen mesurau arbennig arni neu fel ei bod yn gwella'n sylweddol cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r corff llywodraethu anfon copi o'r cynllun gweithredu at PAEM ac i Lywodraeth y Cynulliad.

66. Am wybodaeth bellach am y camau y gellid eu cymryd o dan yr amgylchiadau hyn, gweler y bennod nesaf.

Yn gryno:

Rhaid i'r corff llywodraethu:

- Roi gwybod i'r rhieni a phobl eraill am yr arolygiad.
- VA VC F Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig â chymeriad crefyddol, rhaid trefnu arolygiad ar wahân o dan adran 50, o addoli ar y cyd ac unrhyw addysg enwadol.
- Trefnu cyfarfod rhwng yr Arolygydd Cofrestredig a'r rhieni.
- Cyfarfod yr Arolygydd Cofrestredig er mwyn trafod gwaith y llywodraethwyr.
- Sicrhau y darperir y wybodaeth berthnasol i'r Arolygydd Cofrestredig.

- Anfon copïau o'r adroddiad cryno at y rhieni a'r adroddiad llawn at bobl eraill.
- Os oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig, rhaid llunio cynllun gweithredu yn nodi'r camau gweithredu dilynol ac anfon gwybodaeth am y camau gweithredu arfaethedig at y rhieni; a
- Chynnwys gwybodaeth yn ei adroddiad blynyddol i'r rhieni ynghylch ei gynllun(iau) gweithredu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

Y Gyfraith

Deddf Addysg 2005
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
Deddf Arolygu Ysgolion 1996 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 6 o Ddeddf Addysg 1997, y Gorchymyn Dadreoleiddio (Darpariaeth Cynlluniau Gweithredu Ysgolion) 1997 (OS 1997/1142) ac Atodlenni 28 a 30 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 (OS 2006/1714)
Deddf Llywodraeth Cymru 1998
Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;
Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae gwaith arolygu hefyd yn ystyried y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Estyn a darparwyr addysg gan gynnwys, er enghraifft, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Canllawiau

Ysgolion y Cafwyd bod Angen Mesurau Arbennig Arnynt neu fod Ganddynt Wendidau Difrifol yn Dilyn Arolygiad o dan Adran 10 Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996 Cylchlythyr 28/03 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cyhoeddiadau Estyn

Fframwaith ar gyfer Arolygu Ysgolion (Medi 2004)
Arweiniad ar arolygu'r ddarpariaeth addysgol i blant cyn oedran ysgol gorfodol mewn lleoliadau (Medi 2008)
Llawlyfr Arweiniad ar gyfer Arolygu Ysgolion (Medi 2008).